Ceir ail-law

Pan fyddwch chi'n prynu car ail-law, bydd eich hawliau'n dibynnu a ydych wedi prynu'r car oddi wrth ddeliwr, gwerthwr preifat, mewn ocsiwn neu dros y rhyngrwyd.

Prynu oddi wrth ddeliwr- beth ddywed y gyfraith

Os prynoch chi'r car oddi wrth ddeliwr, mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i'r car:

- **gyd-fynd â'i ddisgrifiad**. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddo fod fel y'i disgrifiwyd gan y gwerthwr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgrifiad ysgrifenedig mewn hysbyseb neu gatalog;
- **fod o ansawdd boddhaol**. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i'r car fod mewn cyflwr rhesymol, gan ystyried ei **oedran** a'r **gwneuthuriad, ei hanes blaenorol** a'r **pris a dalwyd** amdano**.** Rhaid iddo fod yn addas at ei ddiben (er enghraifft, os ydych chi am gar sy'n gallu tynnu carafán, rhaid iddo allu gwneud hynny). Rhaid iddo hefyd fod **yn ddiogel ar gyfer y ffordd**. (Mae'n drosedd gwerthu car sy ddim yn ddiogel ar gyfer y ffordd). Nid yw car yn ddiogel ar gyfer y ffordd os yw ei frêc, ei deiars, y llywio, neu adeiladwaith yn ei wneud yn anaddas ar gyfer y ffordd. Hyd yn oed os oes gan gar dystysgrif MOT, nid yw hyn o anghenraid yn golygu ei fod yn ddiogel ar gyfer y ffordd.

Ni fydd gennych yr hawliau hyn os:

- yw'r deliwr wedi **tynnu sylw** at raddau llawn y diffygion cyn i chi brynu'r car; *neu*
- os wnaethoch chi **archwilio'r** car ac fe ddylech fod wedi sylwi ar y diffygion. Mae hyn gan amlaf yn berthnasol i ddiffygion cosmetig os archwilir gan berson lleyg. Ni fyddai'r deliwr yn gallu osgoi cyfrifoldeb am ddiffygion mecanyddol os nad oeddent yn amlwg wrth i chi archwilio.

Gwirio ceir
Cyn prynu, mae'n werth gwirio os yw cwmni yswiriant wedi dweud fod y car wedi ei ddileu (write-off), wedi'i ddwyn, neu os oes taliadau yn ddyledus o werthiant blaenorol. Am wybodaeth ynglŷn â sut i wirio'r pethau hyn ewch i wefan Directgov yn: www.direct.gov.uk a dilynwch y cysylltiadau i Moduro a Phrynu a Gwerthu Cerbyd.

Gall gwiriadau milltiroedd fod ar gael. Er mwyn tawelwch meddwl, efallai yr hoffech gael y car wedi'i archwilio gan arbenigwr ar gyfer diffygion mecanyddol. Mae yna dâl ar gyfer y gwasanaethau hyn.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â beth y dylid edrych allan amdano wrth i chi brynu car ail law ewch i www.consumerdirect.gov.uk a dilynwch y cyswllt i Gyngor ar nwyddau a gwasanaethau.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Canslo/Tynnu nôl

- Peidiwch â chytuno na llofnodi dim os nad ydych chi'n gwbl sicr eich bod am fynd ymlaen i brynu.
- Os ydych chi'n talu am y car gydag arian parod, nid oes cyfnod ail feddwl i gael. Fel arfer fe fyddwch ynghlwm yn gyfreithiol o'r funud y cytunodd y ddau ohonoch ynglŷn â'r gwerthiant.
- Os yw'r dêl yn amodol ar gyllid, a chwithau heb lofnodi cytundeb cyllid, nid oes un parti yn cael ei rhwymo'n gyfreithiol hyd nes y bydd y cytundeb cyllid wedi'i arwyddo gan y ddwy ochr.
- Os ydych chi wedi llofnodi'r cytundeb cyllid ond bod y cwmni cyllid heb ei gymeradwyo eto, fe allwch chi ddal i dynnu nôl os gweithredwch chi yn **gyflym iawn**. Ffoniwch y cwmni cyllid ar unwaith gan ddilyn hyn â llythyr yn cadarnhau eich bod yn tynnu nôl.
- **Byddwch yn ofalus o lofnodi unrhyw ddogfen sy'n nodi eich bod wedi archwilio'r car a chael ei fod yn foddhaol ymhob ffordd.**

Gwarant neu waranti estynedig

Os gwerthwyd y car gyda gwarant neu waranti estynedig, efallai fod gennych hawliau ychwanegol. Ni all y gwarant na'r waranti fynd â'ch hawliau statudol oddi wrthych. Dylech wirio'r print mân ar eich gwarant. Mae gan nifer o'r rhain eithriadau megis traul a gwisgo. Os ydych chi'n prynu car â milltiroedd uchel, mae angen i chi ofyn i chi'ch hunan os ydyw'r waranti yn rhoi sicrwydd am y problemau sy'n debygol o ddigwydd ac ystyried hefyd os ydyw'r waranti yn cynnig gwerth am arian.

Rheolau arbennig os ydych yn talu trwy gredyd

Os defnyddioch chi eich cerdyn credyd neu os trefnodd y gwerthwr y cyllid er mwyn i chi dalu am y car, ac fe gostiodd mwy na £100 a llai na £30,000, gall y cwmni credyd fod yr un mor atebol am unrhyw dor cytundeb. Golyga hyn os yw'r car yn ddiffygiol, y gallech hawlio ad-daliad neu gost yr atgyweirio oddi wrth y cwmni cyllid, y deliwr, neu'r ddau ar y cyd. Mae'r rheolau ynglŷn â hurbwrcasu a gwerthiant amodol yn wahanol i gytundebau eraill yn y ffaith mai'r cwmni cyllid sy'n gwbl gyfrifol.

Eich hawliau os brynoch chi'r car oddi wrth ddeliwr

Arferion masnachol annheg a throseddau

Mewn rhai achosion, os brynoch chi'r car oddi wrth ddeliwr ac y mae gennych broblem, gall y deliwr fod yn euog o gyflawni arfer masnachol annheg. Mae hyn yn drosedd. Bydd y deliwr wedi cyflawni trosedd os yw:

- **wedi rhoi disgrifiad ffug** (er enghraifft, nodi mai dim ond un perchennog gofalus a fu pan mae'r llyfr log yn nodi pedwar perchennog blaenorol); *neu*
- gwerthu car sy ddim yn ddiogel ar gyfer y ffordd: *neu*
- **newid y nifer o filltiroedd** ar gloc milltiroedd y car neu werthu car i chi ble mae'r nifer o filltiroedd **wedi cael eu newid**; *neu*
- esgus bod yn **werthwr preifat.**

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n credu fod unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i'ch sefyllfa chi, cyn cymryd unrhyw gamau yn erbyn y gwerthwr, fe ddylech roi gwybod am yr achos i'r Cyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506. Hefyd, yn achos anaf personol, fe ddylech chi gymryd cyngor cyfreithiol am eich cais.

Ad-daliad
Mae gallu dychwelyd eich car a mynnu eich arian yn ôl yn dibynnu'n rhannol ar ba mor hir y bu'r car gyda chi a faint o filltiroedd y teithiodd cyn i chi riportio'r diffyg. Os ydyw'r diffyg yn un difrifol a chwithau heb deithio llawer o filltiroedd ac yn ei ddychwelyd (ei wrthod) yn fuan iawn ar ôl prynu, efallai y bydd hawl gennych i ad-daliad llawn. Sut bynnag, os cadwch chi'r car am amser hirach heb ei ddychwelyd, fe allech chi golli'r hawl hwn, er y bydd dal i fod hawl gennych am unioni'r diffyg. Os oes hawl gennych am ad-daliad, bydd hwn yn cynnwys yr arian daloch chi am y car diffygiol ynghyd â dychwelyd unrhyw gar yr ydych wedi ei rhan gyfnewid. Os gwerthwyd y car yr ydych wedi ei rhan gyfnewid yn y cyfamser, mae gennych hawl i werth y car yn ariannol yn ôl yr un a nodwyd yn eich gwaith papur.

Amnewid neu atgyweirio
Os yw'r car yn ddiffygiol a chwithau wedi ei adael yn rhy hir cyn hawlio ad-daliad neu dydych chi ddim am un, fe allwch ofyn i'r deliwr am ei amnewid neu ei atgyweirio yn rhad ac am ddim. Os wnewch chi hyn o fewn chwe mis o dderbyn y car, a'i fod yn rhesymol i ddisgwyl iddo barhau am y cyfnod amser y bu yn eich meddiant, mae modd tybio fod y broblem yno pan brynoch chi'r car, oni bai fod y deliwr yn gallu dangos yn wahanol. Sut bynnag, fe allwch ddal i ofyn am gar arall yn ei le neu am atgyweirio'r car i fyny hyd at chwe blynedd o'r dyddiad y prynoch chi'r car, os yw'n rhesymol cymryd iddo barhau mor hir â hynny. Yn yr achos hwn, mae i fyny i chi i ddangos fod y car yn ddiffygiol adeg y gwerthu. Yr hira y bydd y car yn eich meddiant, y mwyaf anodd fydd hi i brofi fod y diffyg yno adeg y gwerthu.

Os**:**
- ydyw'n amhosibl amnewid neu atgyweirio'r car; *neu*
- byddai amnewid neu atgyweirio yn afresymol o gostus i'r gwerthwr o'i gymharu â dulliau amgen: *neu*
- os yw'r gwerthwr yn methu amnewid neu atgyweirio'r car o fewn amser rhesymol o gytuno i wneud hynny, neu yn achosi anghyfleustra arbennig i chi

Yna:
- fe allwch ofyn am ad-daliad rhannol neu llawn. Gall y swm o arian a ad-delir fod yn llai i gymryd i ystyriaeth faint o ddefnydd gawsoch chi o'r car.

Iawndal
Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os:
- yw'r cytundeb wedi'i dorri (**tor-cytundeb**) achos nad yw'r cerbyd yn cyd-fynd â'r disgrifiad, heb fod o ansawdd boddhaol neu'n addas at ei ddiben.
- yw'r deliwr wedi gwneud **datganiad ffug** ynglŷn â'r car er mwyn eich cael chi i'w brynu (er enghraifft, dweud wrthych fod injan newydd wedi cael ei gosod pan fod yr injan yn un a adnewyddwyd)
- ydych wedi cael **anaf** achos bod y car ddim yn **ddiogel ar gyfer y ffordd** neu'n **anniogel**. Fe ddylech bob amser gael cyngor cyfreithiol cyn penderfynu derbyn cynnig o iawndal am anaf personol ai peidio.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- yw diffyg ar y car yn **achosi difrod** i rywbeth arall
- ydych yn derbyn gwaith **atgyweirio** sy'n troi allan i fod yn **anfoddhaol**
- ydych wedi mynd i **gostau ychwanegol** achos tor-cytundeb y deliwr, er enghraifft, gorfod gwneud galwadau ffôn neu dalu am drafnidiaeth amgen.

Sut i ddatrys y broblem

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw'ch hawliau, cysylltwch â'r deliwr. Y deliwr a/neu'r cwmni cyllid ac nid y gwneuthurwr sy'n gyfrifol am ddelio â'ch cwyn. Dilynwch y camau isod:

- **peidiwch â defnyddio'r car mwyach**
- **casglwch eich holl ddogfennau at ei gilydd**, gan gynnwys eich anfoneb ar gyfer y gwerthiant, y warant neu'r waranti a/neu'r cytundeb credyd
- os oes rhywun wedi'i **niweidio** neu os ydych chi'n credu fod trosedd wedi'i chyflawni (er enghraifft, y car ddim yn ddiogel ar gyfer y ffordd) fe ddylech chi gysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506 cyn mynd yn ôl at y deliwr.
- **cysylltwch â'r deliwr** a'r cwmni cyllid (os yn berthnasol) ar unwaith wedi dod o hyd i'r diffyg. Ewch yn ôl â'r car, a gofynnwch am gael siarad â'r rheolwr neu'r perchennog. Neu, ysgrifennwch at y rheolwr neu'r perchennog, gan anfon **copi** o anfoneb y gwerthiant. Cadwch gopi o'ch llythyr. Esboniwch eich problem yn dawel ond yn gadarn a gofynnwch am ad-daliad llawn, atgyweiriad, car arall yn lle, neu iawndal a rhowch derfyn amser.
- **os oes anghytuno ynglŷn ag achos y broblem**, efallai y bydd yn rhaid i chi gael barn arbenigol. Rydych yn medru gwneud hyn trwy gymdeithas fasnach, yr AA, RAC, neu gan unrhyw un sydd â chymwysterau addas sy'n fodlon cofnodi eu darganfyddiadau'n ysgrifenedig. Fel arfer, fe fydd yn rhaid i chi dalu am yr adroddiad a dylech hefyd ddod i gytundeb gyda'r gwerthwr ymlaen llaw, ynghylch y dewis o arbenigwr ac y bydd y ddau ohonoch yn rhwym i ddarganfyddiadau'r arbenigwr. Os aiff yr achos i'r llys fe fydd angen i chi gael caniatâd y llys i ddefnyddio tystiolaeth yr arbenigwr yn y gwrandawiad neu efallai na fyddwch yn medru adennill y costau. Os ewch chi trwy gymdeithas fasnach, fe all gynnig cymod neu gyflafareddiad. Yn aml, mae cyflafareddiad yn rhwymo'n gyfreithiol. Os hoffech chi fwy o wybodaeth cyn ymrwymo'ch hun, cysylltwch â'r gymdeithas fasnach am fanylion pellach.
- **os nad ydych yn fodlon o hyd**, neu os nad ydych am dderbyn cyflafareddiad, ysgrifennwch at y deliwr, gan ailadrodd eich cwyn a sôn am unrhyw gamau a gymerwyd yn barod. Dywedwch y byddwch yn rhoi pedwar diwrnod ar ddeg i'r deliwr i ddatrys y broblem neu y byddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol. Anfonwch eich llythyr fel **dosbarthiad a gofnodwyd** (recorded delivery) gyda chopi i'r brif swyddfa. Sicrhewch eich bod yn **cadw copïau** o'r holl lythyron
- **os bydd y deliwr yn cynnig ateb arall i chi yn lle** (er enghraifft, car arall yn lle) fe allwch naill ai dderbyn neu barhau i drafod. Byddwch yn realistig yn yr hyn yr ydych yn fodlon ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- **os nad yw'r deliwr yn ateb eich llythyron**, os yw'n gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. Os ydych yn hawlio cost yr atgyweiriadau, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael digon o dystiolaeth i brofi eich honiad, er enghraifft, adroddiadau a ffotograffau arbenigol, cyn i chi ganiatáu i garej arall atgyweirio'r car. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf**. Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y deliwr **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian

Os ydych chi wedi colli arian ar gar sy'n ddiffygiol, peidiwch â gwastraffu mwy o arian ar achos na allwch ei ennill.

Prynu'r car mewn ocsiwn byw- beth ddywed y gyfraith

Os ydych yn prynu car ail law mewn **ocsiwn byw** yr ydych chi'n cael cyfle i'w mynychu'n bersonol, efallai y bydd eich hawliau yn gyfyngedig os bydd y car yn troi allan i fod yn ddiffygiol. Fe ddylech wirio amodau a thelerau busnes yr ocsiwn, er enghraifft yn y catalog neu ar hysbysiadau sydd wedi eu harddangos. Os ydynt yn nodi nad yw'ch hawliau o dan Ddeddf Gwerthu Nwyddau yn berthnasol, yna rydych yn prynu'r car **fel yr ydych yn ei weld** a'ch cyfrifoldeb chi yw edrych dros y car cyn i chi gynnig amdano. Fe fydd rhai ocsiynau'n cynnig yswiriant yn erbyn y posibilrwydd fod y car wedi ei ddwyn ac efallai y bydd rhai'n cynnig cyfnod ail feddwl i chi (er, yn aml mae hyn yn medru bod yn fyr iawn - ychydig o oriau yn unig).

Prynu car oddi wrth werthwr preifat - beth ddywed y gyfraith

Os ydych yn prynu car oddi wrth **werthwr preifat**, ni fydd gennych yr un hawliau ag wrth brynu oddi wrth ddeliwr. Fe fyddwch ond yn medru hawlio yn erbyn gwerthwr preifat am un o'r rhesymau canlynol :

- os nad yw'r car yn cyfateb i'r disgrifiad a roddwyd i chi, er enghraifft fe ddywedwyd wrthych mai ond un perchennog fu iddo pan mewn gwirionedd roedd yna sawl un. Bydd y gwerthwr yn gyfrifol am roi disgrifiad ffug i chi, hyd yn oed os byddan nhw'n credu ei fod yn wir.
- mae'r gwerthwr wedi torri amod penodol yn y cytundeb, er enghraifft, trwy ddweud fod gan y car MOT pan nad yw hyn yn wir
- os nad yw'r car yn ddiogel ar gyfer y ffordd. Mae'n drosedd gwerthu car sy ddim yn ddiogel ar gyfer y ffordd. Nid yw car yn ddiogel ar gyfer y ffordd os yw'r brêc, y teiars, y llywio, neu adeiladwaith yn ei wneud yn anaddas ar gyfer y ffordd. Nid yw tystysgrif MOT yn golygu fod y car yn ddiogel ar gyfer y ffordd.
- nid y gwerthwr oedd perchennog cyfreithiol y car ac nid oedd ganddo hawl i'w werthu.

Byddwch yn ofalus iawn o werthwr sydd am gwrdd â chi i ffwrdd oddi wrth eu cyfeiriad preifat, sydd â'i enw ddim yn y llyfr log neu sy'n amwys iawn wrth ateb cwestiynau. Fe allan nhw fod yn ddeliwr sy'n esgus bod yn werthwr preifat ac mae hynny'n drosedd.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n credu fod trosedd wedi'i chyflawni, fe ddylech riportio'r gwerthwr i'r Cyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506 neu yn: www.consumerdirect.gov.uk

Prynu car dros y rhyngrwyd

Pan fyddwch chi'n prynu car dros y rhyngrwyd fe fydd eich hawliau'n dibynnu ar bwy yw'r gwerthwr a pha fath o werthiant sydd dan sylw.

Os ydych yn prynu'ch car oddi wrth ddeliwr dros y rhyngrwyd, fe fydd yr un hawliau gennych a phetaech wedi prynu'r car oddi wrth y deliwr wyneb yn wyneb Fe fydd rhai hawliau ychwanegol gennych yn ogystal, gan gynnwys yr hawl i ganslo eich archeb o fewn saith diwrnod gwaith heb orfod talu dim. Rhaid i'r masnachwr ddweud wrthych am yr hawl hwn pan fyddwch chi'n archebu.

Os ydych yn prynu'ch car oddi wrth werthwr preifat dros y rhyngrwyd, fe fydd yr un hawl gennych a phetaech wedi ei brynu oddi wrth y gwerthwr preifat wyneb yn wyneb. Sut bynnag, dylech gofio bod gennych lai o hawliau pan fyddwch yn prynu rhywbeth oddi wrth werthwr preifat.

Os ydych chi'n prynu car o safleoedd ocsiwn ar y rhyngrwyd, fe fydd eich hawliau'n dibynnu ar y math o werthiant sydd dan sylw. Os ydych chi'n prynu car o werthiant ar ffurf ocsiwn lle mae cynnig pris yn digwydd, mae hyn yn debygol o fod oddi wrth werthwr preifat ac fe fydd gennych yr un hawliau a phetaech wedi prynu'r car oddi wrth werthwr preifat wyneb yn wyneb.

Os ydych yn prynu car oddi wrth ddeliwr trwy safle ocsiwn ar y rhyngrwyd, er enghraifft, oddi wrth werthiant "Buy it now" ar eBay, fe fydd gennych yr un hawliau a phetaech wedi prynu oddi wrth y deliwr wyneb yn wyneb.

Cymdeithasau sy'n delio â chwynion am geir

Motor Codes Limited
Mae Motor Codes Limited yn is-gwmni i SMMT (Cymdeithas Gwneuthurwyr a Masnachwyr Ceir) sy'n gymdeithas fasnach ar gyfer gwneuthurwyr moduron a chwmnïau yswiriant methiant mecanyddol. Mae Motor Codes Limited yn gweithredu nifer o godau ymarfer y mae'n rhaid i'w danysgrifwyr gydymffurfio â nhw. Fe allwch gysylltu â nhw ar 0800 692 0825 am fwy o wybodaeth.

Ffederasiwn Diwydiant Moduron (RMIF) / Cymdeithas Arwerthiannau Moduron (SMA)
Mae'r ddau hyn yn rhan o'r un gymdeithas. Rhaid i'r aelodau ddilyn Cod Ymarfer. Mae yna wasanaeth cymodi mewnol a chynllun cyflafareddu annibynnol a drefnir gan Sefydliad Siartredig Cyflafareddwyr i ddelio â chwynion yn erbyn ei aelodau. Fe allwch gysylltu ag RMI a SMA ar 01788 538317.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Prynu mewn ocsiwn
- Gwarantau
- Cyflenwr yn mynd allan o fusnes
- Llythyron sampl
- Diogelwch
- Prynu ar safleoedd ocsiwn ar y rhyngrwyd
- Cychwyn achos llys
- Credyd

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 22 Mawrth 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr